| | |
|---|---|
| Pwyllgor | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| Teitl yr Adroddiad | Adroddiad Diweddaru Ail-Fodelu’r Gwasanaeth Ieuenctid |
| Dyddiad y Cyfarfod | 23 Ionawr 2020 |
| Aelod Cabinet Perthnasol | Cynghorydd Dilwyn Morgan |
| Awdur | Nia Morris, Rheolwraig Gwasanaeth Ieuenctid |

1. Cefndir
   1.1 Penderfynodd y Cabinet i ail-fodelu’r Gwasanaeth Ieuenctid ar y 13eg o Fawrth 2018. Bu i’r Cabinet ail-ystyried elfennau penodol o’r ail-fodelu ar y 12ed o Fehefin, yn dilyn penderfyniad gan y Cyngor ar y 3ydd o Fai.
   1.2 Aethpwyd ati i ail-fodelu’r Gwasanaeth Ieuenctid i sefydlu’r model newydd o’r 1af o Fedi 2018.
   1.3 Mae’r Gwasanaeth Ieuenctid wedi bod yn adrodd ar gynnydd yr ail-fodelu a perfformiad y gwasanaeth drwy’r drefn Herio Perfformiad gydol y flwyddyn.
   1.4 Dymuna’r Aelod Cabinet roi diweddariad i’r Pwyllgor Craffu ar gynnydd blwyddyn gyntaf yr ail-fodelu.

2. Adroddiad ar Gynnydd
   2.1 Mae Adroddiad Blwyddyn 1af yr Ail-fodelu wedi ei gynnwys yn atodiad 1.
   2.2 Prif gasgliadau adolygiad y flwyddyn gyntaf yw fod y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn wedi ei chwblhau; fod perfformiad y gwasanaeth ychydig yn well na’r disgwyl; fod cyfraddau ymgysylltiad pobl ifanc gyda’r Gwasanaeth wedi aros yr un peth er y lleihad mewn gwasanaeth; fod y bobl ifanc hynny sydd wedi ymwneud gyda’r Gwasanaeth yn adrodd eu bod yn cael yr help sydd ei angen arnynt.
   2.3 Fodd bynnag mae’r adolygiad hefyd yn dangos oherwydd heriau recriwtio nid yw’r Gwasanaeth yn gweithredu ar ei lawn gapasiti; fod mwy o amser y Tîm Rheoli wedi mynd i gefnogi Clybiau Cynghorau Cymuned na’r hyn a ragwelwyd a bydd y glaw hwnnw yn debygol o barhau.

3. Asesiad Effaith o’r newid
   3.1 Mae’r Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei ddiweddaru ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf.
   3.2 Prif gasgliadau adolygiad yr asesiad effaith yw fod y mesurau lliniaru sydd wedi eu rhoi ar waith wedi lleihau yr effeithiau negyddol a ragwelwyd. Nid oes effeithiau negyddol pellach / newydd wedi eu hadnabod heb fesurau lliniaru mewn lle i’w rheoli.
   3.3 Bu i’r Gwasanaeth Ieuenctid hefyd wneud gwaith penodol i liniaru effeithiau’r ail-fodelu ar faterion nad oeddynt yn ymwneud a chydraddoldeb; sef effaith dod a grant i fudiadau’r trydydd sector i ben; a’r effaith ofodol wrth symud oddi wrth Glybiau Ieuenctid statig i raglen o weithgareddau.
   3.4 O ran y 3ydd Sector mae’r Gwasanaeth wedi sefydlu Fframwaith Gomisiynu ar gyfer ategu at y ddarpariaeth ieuenctid i rai 16-24 oed. Mae’r Fframwaith wedi comisiynu gyda mudiadau megis Fran Wen.
   3.5 Yn ystod y flwyddyn mae’n cytundeb gyda’r Urdd i ddarparu hyfforddiant ac alldeithiau yn rhan o’r Wobr Dug Caeredin yn parhau.
   3.6 Yn ychwanegol i hyn rydym wedi cyfrannu tuag at ddarpariaeth Clwb LGBT+ gwirfoddol; sesiynau cyffuriau gyda Ffermwyr Ifanc Eryri; darpariaeth codi ymwybyddiaeth ac atal digartrefedd gyda GISDA.
   3.7 O ran yr effaith ofodol mae’r Gwasanaeth Ieuenctid wedi sicrhau fod y model newydd wedi ymweld gyda chymunedau bach a mawr ar draws y sir. Oherwydd y pryder gan rai

cymunedau am ddiffyg presenoldeb barhaus ar ffurf clwb cymdeithasol i bobl ifanc gan y Gwasanaeth Ieuenctid, rydym hefyd wedi cefnogi Cynghorau Cymuned i dreialu a sefydlu eu trefniadau eu hunain ar gyfer parhau i gynnal Clwb Ieuenctid yn eu pentrefi.

3.8 Mae Clwb Ieuenctid wedi agor ar ran cyngor cymuned yn Nefyn, Caernarfon, Llanrug, Penygroes, Blaenau Ffestiniog, Llan Ffestiniog a Bethesda. Mae pob clwb wedi amrywio o ran niferoedd, heriau a llwyddiannau. Bydd rhai Clybiau yn parhau i'r flwyddyn nesaf ac eraill yn ail-ystyried ac yn addasu eu trefniadau.

3.9 Rydym hefyd wedi cefnogi'r cynghorau cymuned a thref ym Mryncrug a Porthmadog ond oherwydd problemau recriwtio a staffio nid yw'r clybiau hynny wedi eu sefydlu.

3.10 Rydym hefyd wedi cefnogi cymunedau eraill i sefydlu trefniadau Clybiau Cymdeithasol i Bobl Ifanc megis yn Deiniolen, Abermaw, a Waunfawr.

4. Ers i'r Cabinet wneud penderfyniad i ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid, mae ychydig o newid pellach wedi bod yn y cyd-destun strategol a pholisi yn y maes. Mae Llywodraeth Cymru wedi

   - cyhoeddi Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol ym Mehefin 2019. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid presennol yma yng Ngwynedd yn cyfarch blaenoriaethau'r strategaeth honno.
   - cyhoeddi eu dymuniad i ail-ymweld gyda'r Canllaw Statudol "Ymestyn Hawliau i rai 11-25 oed". Nid yw'r adolygiad wedi cychwyn eto felly ni allwn ragweld beth fydd effaith hyn ar y Gwasanaeth ieuenctid yng Ngwynedd.
   - dyrannu grantiau Iechyd a Lles ac Atal Digartrefedd i wasanaethau ieuenctid pob awdurdod lleol ar gyfer 2019-2020.

5. Camau Nesaf

   5.1 Mae ail flwyddyn yr ail-fodelu eisoes ar waith. Prif bwyslais y flwyddyn hon yw.

- Ymgorffori'r 5 Ffordd at Lês drwy holl waith y Gwasanaeth
- Datblygu cyfleoedd gwirfoddol i bobl ifanc
- Datblygu ymhellach y cyfleon cymunedol i bobl ifanc
- Datblygu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid
- Gwerthuso effaith darpariaeth prosiect ADTRAC
- Archwilio ffynonellau ariannu posib ar gyfer ymestyn darpariaeth ADTRAC tu hwnt i ddyddiad cau'r prosiect
- Datblygu mwy o bartneriaethau cydweithio gyda partneriaid ac ysgolion.